



CPS

Hawl Dioddefwyr i Adolygiad  
Canllawiau

Cyhoeddir gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus  
Diwygiwyd Mehefin 2016

## Cynnwys

<u>Cyflwyniad</u>	<u>3</u>
<u>Cefndir</u>	<u>3</u>
<u>Pa benderfyniadau sy'n amodol ar y cynllun?</u>	<u>4</u>
<u>Pwy all ymgeisio o dan y cynllun?</u>	<u>5</u>
<u>Sut y gall dioddefwyr ddefnyddio'r hawl i adolygiad?</u>	<u>6</u>
<u>Beth y mae Gwasanaeth Eryl y Goron yn ei wneud gyda chais am adolygiad?</u>	<u>7</u>
<u>Ailystyried penderfyniad erlyniad</u>	<u>9</u>
<u>Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad annibynnol?</u>	<u>9</u>
<u>Canlyniad yr adolygiad</u>	<u>10</u>
<u>Cyfyngiadau amser</u>	<u>12</u>
<u>Uwch wasanaeth</u>	<u>13</u>

## Cyflwyniad

1. Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu sut y gall dioddefwyr weithredu eu hawl i geisio adolygiad o rai penderfyniadau a wneir gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
2. Mae cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn berthnasol i bob achos cymwys o'r 5 Mehefin 2013.
3. Nid yw'r cynllun yn ôl-weithredol wrth ei ddefnyddio a dim ond pan fydd penderfyniad cymwys wedi'i wneud ar 5 Mehefin 2013 neu ar ôl hynny y bydd yn cael ei gymhwysu.

## Cefndir

4. Ar 29 Mehefin 2011, fe wnaeth y Llys Apêl benderfyniad yn R v Christopher Killick [2011] EWCA Crim 1608 (R v Killick).
5. Yn ystod y dyfarniad fe wnaeth y Llys ystyried yn fanwl hawl dioddefwr trosedd i geisio adolygiad o benderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio ag erlyn a daeth i'r casgliad clir bod:
  - gan ddioddefwr hawl i geisio adolygiad o dan amgylchiadau o'r fath.
  - ni ddylai'r dioddefwr orfod ceisio atebolrwydd i adolygiad barnwrol.
  - dylai'r hawl i adolygiad gael ei wneud yn destun gweithdrefn ac arweiniad cliriach gyda chyfyngiadau amser.
6. Mae'r cynllun yn rhoi grym i'r egwyddorion a osodwyd yn Killick ac Erthygl 11 y Gyfarwyddeb Undeb Ewropeaidd sy'n gosod safonau gofynnol ar hawliau, cefnogaeth ac amddiffyniad dioddefwyr trosedd.
7. Mae Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn deillio o derfynoldeb y penderfyniad i beidio ag erlyn ar ôl cymhwyso'r profion tystiolaethol a lles y cyhoedd o dan God Erlynyddion y Goron. Mae'n cyd-fynd â hawl y dioddefwr i geisio adolygiad barnwrol o benderfyniad o'r fath. Yn wir, fel sydd wedi'i ddatgan gan y Llys Apêl yn Killick:

'... mae wedi'i sefydlu ers beth amser bod hawl gan unigolyn â diddordeb i geisio adolygiad barnwrol o benderfyniad i beidio ag erlyn ...; gan hynny byddai'n anghymesur i awdurdod cyhoeddus beidio â chael system adolygu heb atebolrwydd i achosion llys ... Gan fod penderfyniad i beidio ag erlyn mewn gwirionedd yn benderfyniad terfynol i'r dioddefwr rhaid

cael hawl i geisio adolygiad o benderfyniad o'r fath.'

8. Mae'n bwysig nodi mai'r "hawl" y cyfeirir ato yng nghyd-destun y cynllun hwn yw'r hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad Prawf Cod. Nid yw'n warant y bydd achosion yn (ail) ddechrau.

### Pa benderfyniadau sy'n amodol ar y cynllun?

9. Mae'r hawl i geisio adolygiad yn codi pan fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn:
- (i) gwneud penderfyniad i beidio â dwyn achos (h.y. yn ystod y cyfnod cyn-gyhuddo);
  - (ii) terfynu (neu'n tynnu yn ôl yn y Llys Ynadon) yr holl gyhuddiadau sy'n cynnwys y dioddefwr, gan hynny yn dod i ben â'r holl achosion sy'n perthyn iddynt yn llwyr;
  - (iii) nid ydynt yn cynnig unrhyw dystiolaeth yn yr holl achosion yn ymwneud â'r dioddefwr; neu
  - (iv) Yn gofyn i'r llys adael yr holl gyhuddiadau yn yr achosion 'ar ffeil'<sup>1</sup>.
10. **Gelwir y rhain yn 'benderfyniadau cymhwyso'.**

11. **NID YW<sup>2</sup>** yr achosion a ganlyn yn disgyn o fewn cwmpas Hawl Dioddefwyr i Adolygiad:

- (i) achosion ble'r oedd y penderfyniad cymhwyso wedi'i wneud cyn 5 Mehefin 2013;
- (ii) achosion ble mae'r heddlu wedi defnyddio eu disgrisiwn annibynnol i beidio ag ymchwilio neu i beidio ag ymchwilio achos ymhellach (boed hynny mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Erlyn y Goron ai peidio) ac nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cael cais i wneud penderfyniad ffurfiol i gyhuddo. Rhaid i geisiadau am adolygiad o benderfyniadau o'r fath gael eu cyfeirio at y Llu Heddlu perthnasol;
- (iii) achosion ble y mae cyhuddiadau yn cael eu dwyn yng nghyswllt rhai (ond nid y cyfan) o'r honiadau a wneir yn erbyn rhai (ond nid y cyfan) o'r rhai posibl dan amheuaeth, ble y mae tystiolaeth y dioddefwr dan sylw wedi'i ystyried gan Erlynydd y Goron;

---

<sup>1</sup> Dyma'r term a ddefnyddir o dan amgylchiadau ble mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwneud penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen ac yn gofyn i'r cyhuddiadau gael eu caniatáu i "adael ar y ffeil" wedi'i nodi 'ni ddylid bwrw ymlaen heb ganiatâd y Llys hwn neu Lys Apêl'

<sup>2</sup> Fel yr esboniodd Arglwydd Farnwr C.J. yn A v R [2012] EWCA Crim 434 ym mharagraff 84 fe allai achosion godi ble "mae'n parhau yn agored i erlyniad mewn achos unigol, am reswm da, i ddatgymhwyso ei bolisi neu ei arweiniad ei hun". Wrth gwrs o dan amgylchiadau eithriadol iawn fe allai achosion sy'n disgyn o fewn eithriadau paragraff 11 er hynny gael eu hystyried i'w cynnwys yn y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ar gyngor y rheolwr ARU neu uwch reolwr arall.

- (iv) achosion ble y mae un cyhuddiad neu gyhuddiadau wedi'u terfynu ond y mae cyhuddiad neu gyhuddiadau eraill yn ymwneud â'r dioddefwr hwnnw yn parhau;
- (v) achosion ble y mae achosion yn erbyn un (neu'n fwy) o ddiffynyddion wedi'u terfynu ond mae achosion (yn ymwneud â'r dioddefwr hwnnw) yn erbyn diffynyddion eraill yn parhau;
- (vi) achosion ble y mae un cyhuddiad neu gyhuddiadau wedi'u newid yn sylweddol ond mae achosion yn ymwneud â'r dioddefwr hwnnw yn parhau;
- (vii) achosion ble y mae peth (ond nid y cyfan) o'r cyhuddiadau wedi'u gadael ar ffeil;
- (viii) achosion sydd wedi diweddu trwy warediad allan o'r llys<sup>3</sup>;
- (ix) achosion ble y mae'r dioddefwr yn gofyn i achosion gael eu stopio neu'n tynnu cefnogaeth yn ôl i'r erlyniad a chan hynny mae penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â chyhuddo/terfynu achosion; ac
- (x) achosion sy'n cael eu dwyn i derfyn o dan amgylchiadau ble y gallai fod hawl apelio gan yr erlyniad<sup>4</sup> neu ble y mae penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â gwrthwynebu cais i ollwng cyhuddiadau yn unol â Rheol 9.16 y Rheolau Trefniadaeth Droseddol 2015.

12. Bydd pryderon am benderfyniadau cyfreithiol nad ydynt yn disgyn o fewn cwrpas y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad a chwynion gwasanaeth yn cael eu trin yn unol â pholisi Adborth a Chwynion<sup>5</sup> Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae cyfyngiad amser o chwe mis i ddod â chwyn o dan y polisi ym mhob un achos ac eithrio'r amgylchiadau mwyaf eithriadol.

### **Pwy all ymgeisio o dan y cynllun?**

13. Mae gan unrhyw ddiodeffwr, ble y mae penderfyniad<sup>6</sup> cymwys wedi'i wneud, yr hawl i geisio

---

<sup>3</sup> Mae "gwarediad allan o'r llys" yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio dewisiadau amgen i erlyniad megis rhybudd, rhybudd amodol a hysbysiadau cosb am anhrefn, sydd wedi'u bwriadu i ddelio â throseddau lefel isel, yn aml am y tro cyntaf, ble na fyddai erlyniad er lles y cyhoedd.

<sup>4</sup> Mae hyn yn cynnwys ceisiadau am adolygiad barnwrol neu i ddatgan achos

<sup>5</sup> Mae cwynion gwasanaeth yn gwynion yn ymwneud â'r ffordd y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cynnal ei hun.

<sup>6</sup> Gweler paragraff 9.

adolygiad o'r penderfyniad hwnnw o dan y cynllun.

14. Mae dioddefwr at ddiben y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad fel a ganlyn:

'unigolyn sydd wedi gwneud honiad eu bod wedi dioddef niwed, gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd **yn uniongyrchol** gan ymddygiad troseddol.'

Mae 'ymddygiad troseddol' yn ymddygiad sy'n cynnwys trosedd o dan y Safon Cofnodi Trosedd Cenedlaethol.

Mae diffiniad dioddefwr yn cynnwys:

- perthnasau agos unigolyn yr achoswyd ei farwolaeth yn uniongyrchol trwy ymddygiad troseddol;
- rhieni neu warcheidwaid ble mae'r prif ddiodeffwr yn blentyn neu'n berson ifanc dan 18 oed;
- swyddogion heddlu sy'n ddiodeffwyr trosedd;
- llefarwyr teuluol diodeffwyr ag anabled neu sydd wedi'u hanafu mor wael na allant gyfathrebu; a
- busnesau, cyhyd â'u bod yn rhoi pwynt cyswllt penodol.

15. Nid oes gwahaniaeth pa mor hen neu ifanc yw person yng nghyswllt y rheini sydd â'r hawl i geisio adolygiad o benderfyniad.

16. Os yw rhywun yn dewis cyflwyno cais am adolygiad ar ran diodeffwr ac nad yw'n disgyn o fewn un o'r diffiniadau a restrir uchod, rhaid darparu cadarnhad ysgrifenedig bod ganddynt ganiatâd y diodeffwr i weithredu ar eu rhan.

### **Sut y gall diodeffwyr ddefnyddio'r hawl i adolygiad?**

17. Bydd diodeffwyr yn cael eu hysbysu o benderfyniad yr erlyniad i beidio â dwyn achosion / dod ag achosion i ben. Bydd yr hysbysiad hwn yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- (a) natur y penderfyniad - h.y. peidio â chyhuddo neu i derfynu achosion;
- (b) a wnaed y penderfyniad ar sail tystiolaeth neu les y cyhoedd.

18. Os yw'r penderfyniad yn 'benderfyniad cymhwyso', bydd yr hysbysiad yn cadarnhau bod y diodeffwr yn gymwys i geisio adolygiad o dan y cynllun a bydd yn rhoi gwybodaeth ddigonol i

alluogi i'r dioddefwr benderfynu:

(a) pa un a ydynt yn dymuno i'r adolygiad fynd rhagddo ai peidio;

(b) os ydynt eisiau adolygiad, pa gamau y mae angen iddynt eu cymryd.

19. **Yr unig** gamau y mae angen i ddiodeffwr eu cymryd yw hysbysu Gwasanaeth Erlyn y Goron o'u cais am adolygiad. Bydd diodeffwyr yn derbyn manylion cyswllt swyddfa Gwasanaeth Erlyn y Goron perthnasol er mwyn iddynt gysylltu trwy eu ffordd o ddewis.
20. Fel arfer dylai cais am adolygiad gael ei wneud o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn hysbysiad o'r penderfyniad. Serch hynny, gellir gwneud cais am hyd at dri mis ar ôl cyfathrebu'r penderfyniad i'r diodeffwr (mae manylion pellach yn ymwneud â chyfyngiadau amser i'w gweld ym mharagraffau 53-62).
21. Mae gwybodaeth bellach am sut i ddefnyddio Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ar gael ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron.

### **Beth y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei wneud gyda chais am adolygiad?**

#### **Datrysiad lleol**

22. Rydym yn cydnabod y bydd llawer o ddiodeffwyr sy'n anfodlon â'r penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud eisiau i rywun edrych ar y broblem cyn gynted â phosibl.
23. Unwaith y mae'r diodeffwr wedi hysbysu Gwasanaeth Erlyn y Goron o'i gais am adolygiad, bydd y Gwasanaeth yn ceisio datrys y mater yn y swyddfa Gwasanaeth Erlyn y Goron lleol neu gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron Uniongyrchol (CPSD), y tîm sy'n gyfrifol am wneud rhan fwyaf y penderfyniadau cyhuddo, gan ddibynnu ar ble y cafodd y penderfyniad ei wneud. Gelwir cam hwn y broses yn 'Ddatrysiad Lleol'.
24. Mae'r Datrysiad Lleol wedi'i anelu at helpu diodeffwyr i ddeall y penderfyniad a wnaed trwy roi gwybodaeth ychwanegol ac mae'n rhoi cyfle i Wasanaeth Erlyn y Goron edrych eto ar y penderfyniad ac i weld a oedd yn gywir. Efallai y bydd modd datrys achos yr anfodlonrwydd yn gyflym gan y swyddfa leol neu gan CPSD.
25. Mae Datrysiad Lleol yn rhan bwysig o'r broses. Os bydd diodeffwr yn cysylltu â'r Uned Apeliadau ac Adolygu yn gyntaf, byddant yn cael eu cyfeirio at y swyddfa leol neu CPSD yn y lle cyntaf er mwyn gallu ystyried Datrysiad Lleol.

26. Bydd y swyddfa Gwasanaeth Erlyn y Goron Lleol neu CPSD yn neilltuo erlynydd newydd i adolygu'r penderfyniad ac yn manteisio ar y cyfle i sicrhau bod esboniad cywir o'r penderfyniad yn cael ei roi os nad yw wedi'i roi yn flaenorol.

27. Canlyniadau'r broses Datrysiaid Lleol yw:

(a) Mewn achosion ble, ar ôl adolygiad, ystyrir y dylid fod wedi gwneud penderfyniad gwahanol a'i bod hi'n bosibl ac yn briodol gwneud hynny, bydd camau yn cael eu cymryd i (ail) ddechrau achosion a bydd y dioddefwr yn cael ei hysbysu. Os nad yw'n bosibl nac yn briodol (ail) ddechrau achosion byddwn yn rhoi esboniad ac, ble mae'n gywir gwneud hynny, ymddiheuriad i'r dioddefwr.

(b) Mewn achosion ble mae swyddfa Gwasanaeth Erlyn y Goron Lleol neu CPSD yn cadarnhau bod y penderfyniad gwreiddiol yn gywir, bydd y dioddefwr yn derbyn gwybodaeth/esboniad ychwanegol ac yn cael ei gynghori, os yw'n parhau yn anfodlon â'r penderfyniad, y dylai gysylltu â'r Uned Apeliadau ac Adolygu neu Brif Erlynydd y Goron fel y bo'n briodol (gweler paragraff 36 isod). Bydd manylion cyswllt yn cael eu rhoi ynghyd ag arweiniad ynglŷn â sut i fwrw ymlaen os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

(c) Mewn achosion ble y mae swyddfa Gwasanaeth Erlyn y Goron Lleol neu CPSD yn cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol yn gywir a ble y mae esboniad priodol wedi'i roi yn flaenorol (a chan hynny ni fyddai'r dioddefwr yn elwa o unrhyw ohebiaeth bellach ar y pwynt hwn), bydd cais y dioddefwr am adolygiad yn cael ei anfon yn uniongyrchol at yr Uned Apeliadau ac Adolygiad neu'r CCP fel y bo'n briodol (gweler paragraff 36 isod). Bydd y dioddefwr yn cael ei gynghori bod hyn wedi digwydd.

28. Bydd y broses Datrysiaid Lleol yn cael ei chwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y cais am adolygiad. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y dioddefwr yn cael ei hysbysu o'r ffaith hon ynghyd â'r rheswm a'r dyddiad y bydd ymateb yn cael ei roi.

29. Ni fydd penderfyniadau cymhwyso a wneir gan erlynyddion ar radd CCP neu uwch neu'r rheini a wneir ar unrhyw radd o fewn y Rhanbarthau Gwaith Achos Canolog yn amodol ar Ddatrysiaid Lleol a bydd yn mynd yn syth i'r adolygiad annibynnol.

### **Adolygiad Annibynnol**

30. Os nad yw anfodlonrwydd y dioddefwr wedi'i ddatrys yn lleol, bydd y penderfyniad yn amodol ar adolygiad annibynnol (gweler paragraffau 33 i 39 isod).



31. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ailystyried tystiolaeth a lles y cyhoedd h.y. bydd yr erlynydd adolygu newydd yn dod at yr achos yn ffres i bennu a oedd y penderfyniad gwreiddiol yn gywir neu'n anghywir<sup>7</sup>.
32. Os yw Gwasanaeth Erlyn y Goron o'r farn bod Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ar gael yng nghyswllt penderfyniad cymhwys a wnaed yn unol â'n polisi Erlyniadau Preifat, oherwydd bod yr erlynydd preifat yn ddiodeffwr sydd wedi gwneud honiad i'r heddlu<sup>8</sup> yn Lloegr a Chymru a'i fod ef/ei bod hi wedi profi ymddygiad troseddol yn uniongyrchol ac ar ôl hynny wedi dechrau erlyniad preifat yng nghyswllt y mater, bydd yr adolygiad annibynnol wedi'i seilio ar y deunydd a roddwyd i'r erlynydd gwreiddiol.<sup>9</sup>

### **Ailystyried penderfyniad erlyniad**

33. Mae'n egwyddor bwysig y dylai pobl allu dibynnu bod penderfyniadau a gymerir gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn derfynol ac na ddylai penderfyniadau o'r fath gael eu diddymu fel arfer. Serch hynny, rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yn ein penderfyniadau a pheidio â chaniatáu i benderfyniadau anghywir sefyll. Mae'n iawn felly, er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol, y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron o bryd i'w gilydd yn gorfod edrych eto at benderfyniad erlyniad, a'i newid os gwelir ei fod yn anghywir. Os gwelir bod penderfyniad yn anghywir, fe allai fod yn angenrheidiol dechrau neu ail gychwyn achosion troseddol.
34. Mae'r cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn rhoi proses wedi'i chynllunio'n benodol i ddiodeffwr i ddefnyddio'r hawl i adolygu. Rhaid i'r adolygwr gynnal ail-adolygiad i'r achos o'r newydd, ac er mwyn newid penderfyniad i beidio ag erlyn, rhaid iddo fod yn fodlon:
- bod y penderfyniad blaenorol yn anghywir wrth gymhwyso camau tystiolaethol neu les y cyhoedd y Prawf Cod Llawn (fel yr amlinellir yn y Cod i Erlynyddion y Goron); ac
  - er mwyn cynnal hyder y cyhoedd, rhaid i'r penderfyniad gael ei wrth-droi.
35. Mae canllawiau wedi'u rhoi i erlynyddion i'w cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau. Pennawd y canllawiau arweiniad yw "Ailystyried Penderfyniad Erlyniad" ac mae ar gael trwy adran Polisi

---

<sup>7</sup> Serch hynny, os, yn unol â pharagraff 4.2 Cod i Erlynyddion y Goron, ei bod i'n glir o'r ffeithiau neu amgylchiadau penodol yr achos nad yw lles y cyhoedd yn gofyn am erlyniad, ni fydd hi'n angenrheidiol cynnal adolygiad o'r dystiolaeth.

<sup>8</sup> Mae honiadau sy'n cael eu hymchwilio gan Asiantaethau Llywodraeth eraill y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn brif awdurdod erlyn iddynt wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad hwn.

<sup>9</sup> Nid oes unrhyw beth yn y paragraff hwn yn gwahardd erlynydd rhag ystyried tystiolaeth ychwanegol gredadwy a dibynadwy o dan amgylchiadau ble y mae deunydd newydd yn cael ei ddarparu trwy'r heddlu neu ymchwilydd fel y diffinnir yn nhroednodyn 8 uchod.

a Chanllawiau Erlyniad (Canllawiau Cyfreithiol) gwefan Gwasanaeth Erlyn y Goron.

### **Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad annibynnol?**

36. Gan amlaf bydd yr adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal fel a ganlyn:

(i) os mai'r penderfyniad cymhwyso oedd 'peidio â chyhuddo', 'terfynu', 'tynnu yn ôl' neu ble mae'r holl gyhuddiadau wedi'u gorchymyn i'w "gadael ar ffeil", o dan amgylchiadau ble y gallai achosion gael eu dechrau neu'u hailgychwyn, bydd adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal gan yr Uned Apeliadau ac Adolygiad nad oeddynt yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol.

(ii) ble mae'r penderfyniad cymhwyso oedd i 'beidio â chynnig tystiolaeth', neu unrhyw benderfyniad arall i beidio ag erlyn dan amgylchiadau ble nad yw ailgychwyn yn bosibl, bydd yr adolygiad ffurfiol yn cael ei gynnal gan Brif Erlynydd y Goron / Pennaeth y Rhanbarth neu Ddirprwy Brif Erlynydd y Goron / Dirprwy Bennaeth y Rhanbarth yn yr Ardal neu'r Rhanbarth ble y cafodd y penderfyniad ei wneud, oni bai bod paragraff 37 isod yn berthnasol.

37. Mae'r hawl i wneud cais am adolygiad o benderfyniad i beidio ag erlyn o dan y cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yn berthnasol i benderfyniadau a wneir gan bob Erlynydd y Goron, waeth beth yw eu gradd neu swydd yn y sefydliad. Gan hynny mae'r cynllun hefyd yn berthnasol i benderfyniadau a wneir gan Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Cynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr, Prif Erlynyddion y Goron a Phenaethiaid Rhanbarthau Gwaith Achos Canolog a bydd yr egwyddorion ym mharagraffau 36 uchod yn berthnasol. Gan hynny, os yw penderfyniad yn disgyn i (i), bydd yr Uned Apeliadau ac Adolygu yn delio ag ef waeth beth yw gradd yr un wnaeth y penderfyniad. Os yw'r penderfyniad cymhwyso yn disgyn i (ii) neu unrhyw achos arall ble nad yw (ail) ddechrau achosion yn bosibl a bod y penderfynwr gwreiddiol ar radd Prif Erlynydd y Goron neu uwch, bydd yn cael ei ddyrannu i uwch gyfreithiwr arall o fewn Gwasanaeth Erlyn y Goron nad yw wedi bod yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.

38. Os yw achos yn cynnwys unrhyw benderfyniad cymhwyso a gymerwyd gan un o'r Rhanbarthau Gwaith Achos Canolog, bydd yr adolygiad Hawl Dioddefwyr i Adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal gan yr Uned Apeliadau ac Adolygu oni bai:

- i. mai'r penderfyniad cymhwyso oedd i 'beidio â chynnig tystiolaeth', neu mae'n perthyn i unrhyw benderfyniad arall i beidio ag erlyn o dan amgylchiadau ble nad yw ailgychwyn yn bosibl; neu

- ii. bod angen sgiliau arbenigol.

Gydag achosion sy'n disgyn i i neu ii uchod, fe allai Pennaeth y Rhanbarth benodi erlynydd o'i ranbarth ei hun nad yw wedi bod yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol, neu erlynydd arall sy'n addas gymwys sydd â'r wybodaeth arbenigol angenrheidiol, i ymgymryd â'r broses Hawl Dioddefwyr i Adolygiad. Mae'r trefniant gwahanol hwn yn angenrheidiol oherwydd gallai natur yr erlyniadau y mae'r Rhanbarthau Gwaith Achos Canolog yn ymgymryd ag ef olygu mewn rhai achosion yr erlynydd â'r profiad o'r arbenigedd penodol dan sylw fyddai yn y sefyllfa orau i gynnal yr adolygiad.

- 39. Os yw'r achos o natur ble mae'n rhaid i benderfyniadau, yn unol â pholisïau sefydledig Gwasanaeth Erynn y Goron, gael eu gwneud gan arbenigwyr o fewn maes cyfreithiol penodol (e.e. treisio a throseddau rhywiol difrifol), bydd y broses ddatrys yn lleol ac unrhyw adolygiad annibynnol hefyd yn cael eu cynnal gan arbenigwr perthnasol.

### **Canlyniad yr adolygiad**

- 40. Bydd canlyniad y broses adolygu yn cael ei gyfathrebu wrth y dioddefwr, ble bynnag fo hynny'n bosibl, o fewn terfynau amser a amlinellir ym mharagraffau 53 i 62.
- 41. Bydd y dull cyfathrebu yn dibynnu ar amgylchiadau dioddefwr a chanlyniad yr adolygiad.
- 42. Ble y mae dioddefwr wedi rhoi rhesymau dros ofyn am adolygiad, eir i'r afael â'r materion a godir yn y llythyr penderfynu at y dioddefwr, ble fo'n briodol.
- 43. Mae'r camau unioni sydd ar gael yn dibynnu ar natur y penderfyniad cymhwyso.
- 44. Yn yr achosion pan mai'r penderfyniad oedd 'peidio â chyhuddo' yna fe allai fod yn bosibl dwyn achosion os yw'r penderfyniad gwreiddiol yn cael ei ystyried, ar ôl ei adolygu, yn anghywir.
- 45. Mae'r un peth yn wir am achosion pan mai'r penderfyniad cymhwyso oedd 'terfynu' ac, o dan rhai amgylchiadau, 'tynnu yn ôl' yr holl achosion.
- 46. Serch hynny, fel arfer nid oes unrhyw gamau unioni ar gael mewn achosion ble mae'r penderfyniad cymhwyso oedd 'i beidio â chynnig tystiolaeth'. Y rheswm dros hyn yw bod penderfyniadau o'r fath yn derfynol, ni all achosion gael eu hail gychwyn ac mae gwneud iawn o dan yr amgylchiadau hyn wedi'i gyfyngu i esboniad ac ymddiheuriad. Mae'n bwysig nodi, er na ellir ail gychwyn yr achos, bydd ansawdd a thrylwyrredd yr adolygiad yr ymgwymerir

ag ef yr un peth ag adolygiad a ymgwymerir ar gyfer achos o unrhyw gategori arall. Y mater pwysig yr eir i'r afael ag ef yn yr achosion hyn yw a oedd y penderfyniad achos gwreiddiol yn anghywir.

47. Mae'r sefyllfa'r un peth mewn achosion sy'n dod yn waharddedig yn statud<sup>10</sup> ar ôl i benderfyniad cymhwyso gael ei wneud ond cyn i gais gael ei wneud am adolygiad neu i'r adolygiad gael ei gwblhau gan nad yw'n bosibl dwyn/ail gychwyn achosion o dan yr amgylchiadau hyn. Os bydd hyn yn digwydd bydd Gwasanaeth Eryl y Goron yn rhoi esboniad i'r dioddefwr ac, os yw'n gywir i wneud hynny, yn cynnig ymddiheuriad.
48. Ble mae Gwasanaeth Eryl y Goron wedi gofyn i Lys y Goron ganiatáu i'r holl gyhuddiadau mewn achos 'aros ar ffeil' a bod y llys wedi gorchymyn hynny, ni ellir ail gychwyn yr achosion hyn heb ganiatâd Llys y Goron neu'r Llys Apêl. Yng nghyd-destun cais Hawl Dioddefwyr i Adolygiad, oni bai bod newid sylweddol mewn amgylchiadau wedi digwydd ers i'r gorchymyn gael ei wneud, mae'n hynod annhebygol y bydd y llys yn rhoi caniatâd. Bydd gwneud iawn felly yn debyg o gael ei gyfyngu i esboniad ac ymddiheuriad os gwelir bod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir.
49. Yn dilyn diwedd y broses Hawl Dioddefwyr i Adolygiad, nid oes cwrpas ar gyfer unrhyw adolygiad pellach gan Wasanaeth Eryl y Goron a chan hynny, os yw'r dioddefwr yn parhau yn anfodlon â'r penderfyniad, ac/neu yn dymuno ei herio ymhellach, yna dylai'r dioddefwr wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.
50. Mae'n debyg y bydd disgwyliad, mewn unrhyw adolygiad bwriadol o benderfyniad cymhwyso, bod unrhyw hawl i adolygiad o dan y cynllun hwn wedi'i ddefnyddio cyn cychwyn ar unrhyw achosion o'r fath.
51. Os bydd achosion yn cael eu (hail) gychwyn yn dilyn adolygiad, bydd yr un dan amheuaeth/diffynnydd yn cael ei gynghori. Dim ond pan fydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei wrthdroi y bydd y rhai dan amheuaeth/diffynnydd yn cael gwybod am gais y dioddefwr.
52. Ble y gall gwersi gael eu dysgu o ganlyniad i gais Hawl Dioddefwyr i Adolygiad, bydd Gwasanaeth Eryl y Goron, ble fo'n briodol ac yn bosibl, yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i ganllawiau, proses neu arfer i ostwng tebygoliaeth y sefyllfa yn codi eto.

---

<sup>10</sup> Mae rhai troseddau na ellir eu cyhuddo ar ôl i gyfyngiad amser ddod i ben. Os yw hyn yn wir, bydd esboniad yn cael ei roi yn yr ymateb.

## Cyfyngiadau amser

53. Bydd penderfyniadau cymhwyso yn cael eu cyfathrebu wrth y dioddefwr yn unol â'r cyfyngiadau amser a amlinellir yng Nghod y Dioddefwyr<sup>11</sup>.
54. Fel arfer dylai cais am adolygiad gael ei wneud o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn hysbysiad o'r penderfyniad. Serch hynny, gellir gwneud cais hyd at dri mis ar ôl cyfathrebu'r penderfyniad i'r dioddefwr a ble mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny (gweler troednodyn 9) byddwn yn ystyried pob cais am adolygiad a wneir yn ystod y cyfnod hwnnw.
55. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd unrhyw oedi y tu hwnt i dri mis yn cael ei ganiatáu ar ôl ystyried ffeithiau'r achos unigol.
56. Mae cais cynnar gan y dioddefwr yn caniatáu adolygiad prydlon ac, ble fo'n briodol, i'r achosion (ail) gychwyn cyn gynted â phosibl. I'r gwrthwyneb, gallai oedi wrth wneud cais gynyddu'r debygolïaeth o'r Llys yn ei chael hi'n anodd gydag unrhyw benderfyniad i (ail) gychwyn achosion yn dilyn yr adolygiad.
57. Bydd unrhyw gamau a gymerir i ddarparu datrysiaid lleol fel arfer yn cael ei gwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn cais y dioddefwr am adolygiad.
58. Ble y mae esboniad pellach o'r penderfyniad yn cael ei roi yn y Datrysiaid Lleol a bod y dioddefwr yn parhau yn anfodlon â'r penderfyniad, gofynnir i ddiodefwyr gysylltu â'r Uned Apeliadau ac Adolygu neu Brif Erlynydd y Goron, o fewn 10 diwrnod gwaith (bydd manylion cyswllt ar gyfer yr unigolyn priodol yn cael ei roi ynghyd ag arweiniad ynglŷn â sut i fwrw ymlaen). Bydd achosion ble nad oes angen esboniad ychwanegol yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr Uned Apeliadau ac Adolygu neu Brif Erlynydd y Goron ac nid oes angen i'r dioddefwr gymryd unrhyw gamau ar y pwynt hwn.
59. Ble mae'r penderfyniad gwreiddiol wedi'i gymryd gan Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Cynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr, Prif Erlynydd y Goron neu Bennaeth Rhanbarth, dylai'r dioddefwr ysgrifennu at yr Uned Apeliadau ac Adolygu yn y lle cyntaf. Bydd y dioddefwr yn cael ei hysbysu o enw'r uwch gyfreithiwr a fydd yn cynnal ei adolygiad.
60. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron, ble bynnag fo hynny'n bosibl, yn cwblhau'r adolygiad ac yn cyfathrebu'r penderfyniad wrth y dioddefwr o fewn graddfa amser cyffredinol o 30 diwrnod gwaith (h.y. 6 wythnos i dderbyn y cais gan y dioddefwr).

---

<sup>11</sup> Yn awr Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Trosedd.

61. Mewn achosion ble nad yw'n bosibl darparu penderfyniad Hawl Dioddefwyr i Adolygiad o fewn y cyfyngiadau amser arferol, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn hysbysu'r dioddefwr yn unol â hynny. Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi ynglŷn â chynnydd yr adolygiad, er ni fydd y rhain yn dod yn amlach na phob 20 diwrnod gwaith ar ôl hynny, hyd nes i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud.
62. Ble y mae achos ar fin dod yn waharddedig trwy statud cyn i gyfnod Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ddod i ben, byddwn yn anelu at hwyluso'r broses Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ac yn darparu penderfyniad o fewn y cyfnod amser statudol os yn bosibl<sup>12</sup>. Bydd y dyddiad pan fydd yr achos yn dod yn waharddedig trwy statud yn cael ei adnabod a'i gyfathrebu wrth y dioddefwr pan fydd y penderfyniad cymhwyso yn cael ei gyfathrebu fel bod y sefyllfa yn glir.

### Uwch wasanaeth

63. Mae Cod y Dioddefwyr yn amlinellu uwch hawliadau i ddiodefwyr mewn rhai grwpiau sy'n fwy tebygol o angen cefnogaeth a gwasanaethau uwch trwy'r broses cyfiawnder troseddol.
64. Bydd diodefwyr sydd â'r hawl i uwch wasanaeth yn derbyn cefnogaeth uwch trwy'r broses Hawl Dioddefwyr i Adolygiad ac yn cael cynnig cyfle i drafod canlyniad yr adolygiad. Bydd hynny sicrhau bod y diodefwyr yn deall yn llawn y broses a'r penderfyniadau a wneir a bod ganddo'r cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddo ef/ganddi hi.
65. Bydd yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r diodefwyr, ar ddechrau'r holl achosion troseddol, yn cydweithio i bennu a yw diodefwyr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer uwch wasanaeth gan ddefnyddio'r canllawiau a amlinellir yn y Cod i Ddiodefwyr:
- **Dioddefwyr bregus neu ofnus** - y rheini sy'n iau na 18 oed adeg y drosedd, neu'r rheini y mae eu tystiolaeth yn debyg o gael ei effeithio oherwydd eu bod yn diodefwyr o anhwylder meddwl o fewn ystyr y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; fel arall mae ganddynt nam sylweddol ar eu deallusrwydd a gweithredu cymdeithasol; neu mae ganddynt anabledd corfforol neu'n diodefwyr o anhwylder corfforol. Mae diodefwyr yn cael ei ystyried yn ofnus os bydd ei dystiolaeth yn cael ei effeithio oherwydd ofn neu drallod am orfod rhoi tystiolaeth yn y llys.
  - **Dioddefwyr y drosedd fwyaf difrifol** - y rheini sy'n ddiodefwyr trais domestig,

---

<sup>12</sup> Dylid nodi ble y mae achos yn cael ei gyfeirio i'w adolygu ar ddyddiad sy'n agos at ddyddiad terfyn y cyfyngiad amser statudol, efallai na fydd hi bob amser yn bosibl cwblhau adolygiad o fewn y cyfyngiad amser ar gyfer dwyn erlyniad.

trosedd casineb, terfysgaeth, troseddau rhywiol, masnachu pobl, ceisio llofruddiaeth, herwgipio, cam-garcharu, llosgi bwriadol â'r bwriad i beryglu bywyd, clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol â bwriad (a.18) ynghyd â'r rheini sy'n berthnasau agos mewn profedigaeth oherwydd ymddygiad troseddol.

- **Dioddefwyr sy'n cael eu targedu yn barhaus** - y rheini sy'n cael eu targedu drachefn dros gyfnod o amser, y rheini sy'n cael eu targedu'n fwriadol neu sy'n ddioddefwyr ymgyrch barhaus i aflonyddu neu stelcian.

66. Bydd Gwasanaeth Eryl y Goron yn ychwanegol at hynny yn cynnig uwch wasanaeth i'r rheini y credwn ni sydd "â'r angen mwyaf" - y rheini a fyddai'n elwa o gefnogaeth gynyddol ond nad ydynt yn disgyn o fewn un o ddisgrifiadau'r Cod Dioddefwyr.

67. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud cais am adolygiad o benderfyniad, ond sy'n ansicr sut i wneud hynny, gysylltu â'u swyddfa Gwasanaeth Eryl y Goron lleol a bydd cymorth yn cael ei roi.